

Digon i ti fy ngras i

Fe fydd realiti bywyd wedi bwrw athrawon a disgyblion ysgol erbyn hyn wrth iddynt ail-afael ym mhrysurddeb bywyd ysgol wedi'r haf! Bydd Prifysgolion yn paratoi i groesawu myfyrwyr newydd i'w plith. Ac ar lawr gwlad bydd ysgolion Sul yn ail-afael a chynulleidfaeodd yn paratoi eu hunain ar gyfer gweithgarwch eu cynulleidfaeodd yn ystod y misoedd sydd i ddod. Ond ar bob llaw clywir lleisiau'n mynegi blinder yn yr ymdrech o gynnal eu cynulleidfaeodd ac weithiau clywn leisiau digalon a diobaith yn gofyn a oes gwerth o gwbl i'n tystiolaeth heddiw?

Ar ddechrau'r tymor hwn, am dair wythnos byddwn yn cael ein hannog gan dri awdur.

A thema'r llywydd, Parch Marcus Robinson, *Digon i ti fy ngras i; meun gwendid y daw fy nerth i'w anterth.* fydd sail eu myfyrdod a'i hanogaeth. Y tro hwn y **Parch Olwen Williams** sy'n ein tywys.

“TRWY DDIRGEL FFYRDD”


Ymhob swydd dan haul mae yna ddyddiau o wyliau i'w gael. Pobol wedi blino yn gorfforol a meddyliol ac angen seibiant o ofalon a chyfrifoldebau, a chyfle i ymlacio heb orfod meddwl am safle gwaith.

Mae'n ofid i orfod dweud heddiw, mai felly mae hi mewn llawer eglwys hefyd, pan mae diwedd Gorffennaf yn dod. Pobl wedi ymlâdd, yn griwiau bach i gadw oedfa mor aml ac y gallant am flwyddyn, a rhyw deimlad o flinder wedi dod drostynt. Wedi blino ymladd yn erbyn difaterwch, blino ar edrych ar y cyllid ac ofn i'r arian ddarfod, poeni am yr adeiladau, ac am nifer y bobl yn y gynulleidfa.

Teimlo fod cyfrifoldeb mawr ar ysgwyddau yr ychydig sydd ar ôl, a rheiny yn amlach na pheidio wedi mynd i oedran teg. Dyna realiti'r sefyllfa bellach, ac felly mae cau trwy gydol Mis Awst yn anorfod.

OND, ac mae yna **ond** bob tro yn 'does?

Beth am eiriau Duw wrth Paul, pan mae o'n cwyno am ei wendid, "Mae fy nerth i yn gweithio orau mewn gwendid" (2 Corinthiaid 12:9 beibl.net) Ynghanol y digalondid a'r blinder, ac efallai wedi colli'r awydd hyd yn oed i ail ddechrau ym mis Medi, gadawn i Dduw ein nerthu. Rhag i ni feddwl mai'n syniadau



A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad ...

O'i gyflawnder ef yr ydym ni oll wedi derbyn gras ar ben gras. Oberwydd trwy Moses y rhoddwyd y Gyfraith, ond gras a gwirionedd, trwy Iesu Grist y daethant.

Ioan 1:14,16,17

Cefais fy ngherfio ar gleidr Ei ddwylo. Nid wyf byth allan o'i feddwl. Y mae pob gwybodaeth ac adnabyddiaeth sydd gennyf ohono ef yn dibynnu ar ei weithred gychwynnol ef ei hun i'm hadnabod i.

Rwy'n ei adnabod Ef am iddo Ef yn gyntaf fy adnabod i ac am ei fod yn dewis parhau i'm hadnabod. Y mae'n fy adnabod fel cyfaill; Ef yw'r Un sydd yn fy ngharu; nid oes foment pan nad wyf allan o'i olwg, neu amrant pan fydd ei sylw'n cael ei lygad dynnu oddi wrthyf, ac nid oes foment felly pan fydd ei ofal yn pallu.

J I Packer

ni sydd yn rhedeg ein capeli, ac oherwydd ein bod ni yn fyddlon ac yn weithgar, y daw llwyddiant, efallai mai pwrpas y sefyllfa yr ydym ynnddi heddiw yw ein hatgoffa mor wan yr ydym, ac nad oes unrhyw ffordd i gario ymlaen heb nerth ac arweiniad Duw, heb gyflwyno'r cwblw iddo.

Wrth ddweud pe bai gennym fwy o aelodau, mwy o arian wrth gefn, mi fyddai'n haws parhau, 'rydym yn euog o drin gwaith Duw yn hunanol, fel petai ni piau o. Heb nerth Duw allwn ni wneud dim.

Gweddwn y bydd ail ymgynnull ar ôl yr haf, yn ddechrau newydd, ac y bydd yna ryw hiraeth am gael nesáu at Dduw yn ei dŷ, ac y bydd Iesu Grist yn dod yn réal yn ein bywydau.

Peidiwn â gofyn pam mae ein heglwysi fel hyn? Pam mae hi mor anodd? Yn hytrach, gofynnwn be mae Duw drwy ei Fab Iesu Grist yn gallu ei wneud yn ein gwendid ni? Cofiwed weddi Paul yn Effesiaid 3:16 "Dwi'n gweddio y bydd yn defnyddio'r holl adnoddau bendigedig sydd ganddo i'ch gwneud chi'n gryf, ac y bydd yn rhoi nerth mewnol i chi drwy roi ei Ysbryd Glân i chi"

Boed i hon fod yn weddi i ninnau, dros ein heglwysi ar ddechrau tymor newydd.

"Mae fy nerth i yn gweithio orau mewn gwendid."